Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy



# Adroddiad Blynyddol

# 20/21

# Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy

# Cynnwys


**Rheolaeth Fersiwn ..... 2**

**Rhagair y Cadeirydd ..... 3**

**Adroddiad yr Ysgrifennydd ..... 3**

**Adolygiad o'r Flwyddyn ..... 4**

1. Teithio Llesol ..... 4
2. Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad ..... 4
3. Ymgynghoriadau ..... 4

**Gwaith a Wnaed yn 2020/21 ..... 5**

**Rôl y Fforwm ..... 6**

**Cysylltiadau ..... 7**

**Atodiad 1: Aelodaeth y Fforwm ..... 8**

**Atodiad 2: Rhaglen Waith y Dyfodol ..... 9**

# Rheolaeth Fersiwn

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Adroddiad Blynyddol Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy |
| **Diben** | Adroddiad Blynyddol 20/21 |
| **Perchennog** | Fforwm Mynediad Lleol |
| **Cymeradwywyd gan** | **Fforwm Mynediad Lleol 26 Ebrill 2022** |
| **Dyddiad** | 29/04/22 |
| **Rhif Fersiwn** | 1.0 |
| **Statws** | **Cymeradwy** |

Cyhoeddwyd yn unol â Rheoliad 16 Rheoliadau Mynediad Cefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001 gan yr Awdurdod Penodi, Cyngor Sir Fynwy, ar ran Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy.

# Rhagair y Cadeirydd

Mae'r Adroddiad hwn yn rhoi sylw i flwyddyn gyntaf y Fforwm cyfredol o 24 Tachwedd 2020

Cefais fy ethol yn Gadeirydd a fy Nirprwy yw Irene Brookes. Ein Ysgrifennydd yw Matthew Lewis, Rheolwr Amgylchedd a Diwylliant, MonLife ac mae Ruth Rourke, Rheolwr Mynediad Cefn Gwlad, Paul Keeble, Peiriannydd Grŵp Priffyrdd a Rheoli Llifogydd ac arsylwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynychu cyfarfodydd.

Caiff manylion ein gwaith am y flwyddyn ei osod yn yr Adolygiad isod. Cafodd gweithgareddau eleni eu herio gan bandemig parhaus Covid 19, i ddechrau yn gohirio cyfarfodydd cyntaf y fforwm ac yna'n ei gwneud yn ofynnol i'r fforwm gwrdd ar-lein dan y rheoliadau dros dro i ganiatáu cyfarfodydd o'r fath. Er ymdrechion gorau pawb, mae'n anochel y cafodd hyn effaith ar waith y fforwm ac mae aelodau'n edrych ymlaen at ailgydio mewn cyfarfodydd wyneb i wyneb.

Mae'n dda gweld y nifer cynyddol o aelodau ac rwy'n ddiolchgar iawn am gyfraniad yr holl aelodau a'u hystod eang o wybodaeth a phrofiad.

Anne Underwood, Cadeirydd

# Adroddiad yr Ysgrifennydd

Mae'r adroddiad hwn yn nodi cwblhau blwyddyn gyntaf y Fforwm Mynediad Lleol presennol o'i gyfarfod cyntaf ar 24 Tachwedd 2020. Mae'n dda dweud, yn dilyn gwaith recriwtio yn 2019/2020, bod digon o geisiadau wedi dod i law i alluogi'r fforwm i weithredu uwchben yr isafswm statudol o aelodau. Penodwyd 15 aelod i ddechrau. Mae un aelod arall wedi ymuno â'r fforwm yn y cyfnod hwn i ychwanegu at ei ystod arbenigedd.

Cafodd dechrau'r fforwm newydd ei ohirio gan effaith Covid 19 a chyfyngiadau cyfnodau clo. Fodd bynnag roedd darpariaethau Rheoliadau Mynediad Cefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 yn caniatáu i gyfarfodydd rhithiol ddechrau a gallodd y fforwm gynnal ei gyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd 2020.

Cafodd ei gyfarfodydd dilynol ar 9 Mawrth 2021, 22 Gorffennaf 2021 a 6 Rhagfyr 2021 i gyd eu cynnal ar-lein heb i'r cyhoedd fod yn bresennol, fel y mae'r rheoliadau yn caniatáu.

Mae aelodau'r Fforwm yn parhau i gyfrannu at ddatrys a datblygu materion a pholisi mynediad cefn gwlad yn Sir Fynwy ac yn edrych ymlaen at ailgydio mewn cyfarfodydd wyneb i wyneb ac ymweliadau safle pan fydd amodau'n caniatáu hynny.

Rydym yn ddiolchgar iawn am eu mewnbwn gwirfoddol a'r profiad a'r cyngor a roddant a'u hymrwymiad i waith y fforwm.

Matthew Lewis, Ysgrifennydd

# Adolygiad o'r Flwyddyn

Dyma rai o'r materion y mae'r Fforwm Mynediad Lleol wedi rhoi cyngor arnynt ac yr ymgynghorwyd â hwy arnynt: -

## 1. Teithio Llesol

Cyfrannodd y fforwm at ddiweddaru'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol drwy ymateb i'r ymgynghoriad ar y map diwygiedig, oedd ei angen i wella llwybrau Teithio Llesol, a chynllunio sut y bydd llwybrau yn uno i ffurfio rhwydweithiau fel y gall pobl fynd o amgylch yn rhwyddach ar feic neu ar droed.

## 2. Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad

Mae'r fforwm wedi derbyn diweddariadau ar gynnydd wrth weithredu Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad, yn cynnwys newidiadau staffio, trefniadau partneriaeth a darpariaeth grant/prosiectau. Fe wnaeth y Fforwm ystyried a chefnogi mewn egwyddor y cynigion i ddatblygu strategaeth gynhwysol i ddefnyddwyr ar gyfer yr holl ffyrdd sirol heb eu dosbarthu yn ardal Gwy isaf, yn amodol ar dderbyn manylion pellach ac yn disgwyl i adnoddau digonol fod ar gael i gynnal dull gweithredu cynhwysfawr a chynhwysol..

## 3. Ymgynghoriadau

Mae'r fforwm wedi cyfrannu at gynllunio ymgynghoriadau Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwneud â chynlluniau gweithredu coedwigoedd ac wedi ymateb i Cyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru ar ymestyn Rheoliadau dros dro y Fforymau Mynediad Lleol (er na chafodd y rhain eu hymestyn gan Lywodraeth Cymru yn y diwedd). Cafodd y Fforwm ei diweddaru ar gynnydd y Diwygiadau Mynediad (drwy nodyn gwybodaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru) a chanlyniadau cyfarfod Cadeiryddion fforymau Mynediad Lleol ym mis Rhagfyr 2021. Fe wnaeth aelodau hefyd ymateb i ymgynghoriad uniongyrchol ar gynnig creu coetir yn Devauden.

.

monmouthshire
sir fynwy

# Gwaith a Wnaed yn 2020/21

| Nifer | Eitem | Ar y rhaglen waith neu yn ychwanegol | Pryd y'i gwnaed |
|---|---|---|---|
| | **Aelodaeth** | | |
| 1. | Briffiad dechreuol gan yr Awdurdod Penodi | Yn ôl gofynion y Rheoliadau | 24 Tachwedd 2020 |
| | Penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd | Yn ôl gofynion y Rheoliadau | 24 Tachwedd 2020<br>9 Mawrth 2021 |
| | Ystyried yr angen am aelodau ychwanegol | Yn ôl gofynion y Rheoliadau | 9 Mawrth 2021<br>6 Rhagfyr 2021 |
| | ***Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad*** | | |
| 2 | Cynllun Cyflenwi Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad<br><br>Gwaith Partneriaeth:<br>(a) Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent<br>(b) Partneriaeth Gwastadeddau Byw<br>(c) Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy<br><br>Staffio, cyflenwi Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad | Ydy<br><br>Ydy<br><br><br><br><br>Ydy | 22 Gorffennaf 2021<br><br>6 Rhagfyr 2021<br><br><br><br><br>6 Rhagfyr 2021 |
| | ***Ymgynghoriadau*** | | |
| 3. | Ymgynghoriad Teithio Llesol: Map Rhwydwaith Teithio Llesol<br><br>Cynnig creu coetir Devauden<br><br>Ymestyn rheoliadau dros dro Fforymau Mynediad Lleol<br><br>Cynllun Adnoddau Coedwigoedd Cyfoeth Naturiol Cymru – angen dynodi ymgyngoreion | Ydy<br><br>Ychwanegol<br><br>Ychwanegol<br><br>Ychwanegol | 22 Gorffennaf 2021<br><br>Drwy ymgynghoriad uniongyrchol gydag aelodau Hydref 2021<br><br>6 Rhagfyr 2021<br><br>6 Rhagfyr 2021 |
| | ***Materion eraill*** | | |
| 4. | Briffiad Diwygio Mynediad<br><br>Cyfarfod Cadeiryddion Fforymau Mynediad Lleol 2 Rhagfyr 2021 | Ydy<br><br>Ydy | 6 Rhagfyr 2021<br><br>6 Rhagfyr 2021 |

# Rhaglen Waith y Dyfodol

Caiff rhaglen waith y dyfodol fel y cafodd ei thrafod a'i chytuno yng nghyfarfod 26 Ebrill 2022 ei hatodi (Atodiad 2).

Yn ogystal ag eitemau rheolaidd mae'n cynnwys bwriad i sefydlu dau is-grŵp: is-grŵp Gwella i gefnogi gweithio gyda chymunedau lleol i ddynodi gwelliannau'r dyfodol ac i geisio ail-sefydlu trefniadau cydlynu yng nghyswllt Coed Gwent (gyda rheolwyr coedwigoedd a Chyngor Sir Casnewydd).

Mae'r Fforwm hefyd yn bwriadu cymryd rhan yng Ngrŵp Mynediad Rhanbarthol Gwent sydd newydd ei sefydlu i gynorthwyo wrth baratoi cynllun gwella mynediad strategol i annog a galluogi cydweithio ar draws awdurdodau lleol Gwent.

# Rôl y Fforwm

Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Pharciau Cenedlaethol sefydlu Fforymau Mynediad Lleol. Mae'r fforymau hyn yn cynghori Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar ffyrdd y gellir gwella mynediad lleol.

Diben statudol y Fforymau yw cynghori ar wella mynediad y cyhoedd i dir ar gyfer dibenion hamdden awyr agored a mwynhad o'r ardal lle cawsant eu sefydlu. Mae'n rhaid i Fforymau roi ystyriaeth i anghenion rheolaeth tir, harddwch naturiol, fflora, ffawna a nodweddion daearegol a ffisiograffig.

Mae'n rhaid i'r cyrff dilynol roi ystyriaeth i unrhyw gyngor perthnasol a roddir gan y Fforymau: awdurdodau Parciau Cenedlaethol, awdurdodau priffyrdd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru ac, ar gyfer materion yn ymwneud ag amddiffyn neu ddiogelwch, yr Ysgrifennydd Gwladol.

Mae'n rhaid i'r fforymau gael cydbwysedd rhwng:
- Defnyddwyr tir mynediad a hawliau tramwy lleol; a
- Tirfeddianwyr a defnyddwyr tir mynediad a thir gyda hawliau tramwy.

Caiff pobl gyda buddiannau eraill sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal hefyd eu cynrychioli.

Mae'r Rheoliadau'n dweud y dylai fod rhwng 12 a 22 aelod, yn cynnwys y Cadeirydd a'r Dirprwy. Gall y Cadeirydd hefyd wahodd unigolion a sefydliadau eraill i arsylwi a rhoi cyngor.

Caiff Aelodau eu penodi gan yr Awdurdod Penodi, yr Awdurdod Priffyrdd lleol neu'r Awdurdod Parc Cenedlaethol lleol. Cyngor Sir Fynwy yw'r awdurdod penodi ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy sy'n cynnwys ardal weinyddol Sir Fynwy y tu allan i ffiniau Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'n cynnwys Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy sydd o fewn y sir.

Mae tiroedd comin cofrestredig a 1657 cilometr o hawliau tramwy cyhoeddus cofrestredig o fewn yr ardal. Mae hefyd ddarnau sylweddol o ffyrdd sirol heb eu dosbarthu, llawer ohonynt heb wyneb, sy'n gyfrifoldeb yr Adran Priffyrdd.

Mae gan Gyngor Sir Fynwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gytundeb cyfrifoldeb a ddirprwywyd ar gyfer y rhan fwyaf o agweddau rheoli'r hawliau tramwy cyhoeddus o fewn y Parc Cenedlaethol.

# Cysylltiadau

Ysgrifennodd Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy

Matthew Lewis
Rheolwr Amgylchedd a Diwylliant
MonLife
Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir, Y Rhadyr
Brynbuga NP15 1GA

Ffôn: 01633 644855
E-bost: countryside@monmouthshire.gov.uk

Mae mwy o fanylion Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy ar gael yn Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy  - MonLife

Mae hyn yn cynnwys dolen i'r agendâu, adroddiadau a chofnodion ar galendr cyfarfodydd y Cyngor dan y dyddiadau perthnasol  Manylion pwyllgor – Fforwm Mynediad Lleol (monmouthshire.gov.uk)   Cysylltwch â'r Ysgrifennydd os gwelwch yn dda os nad yw'r dogfennau hyn ar gael.

# Atodiad 1: Aelodaeth y Fforwm

## a) Aelodaeth 2020/21 (hyd at 24 Tachwedd 2023)

| ENW | DIDDORDEBAU |
|---|---|
| Anne Underwood – (Cadeirydd) | Cerdded a marchogaeth |
| Irene Brooke – (Is-gadeirydd) | Tirfeddianwr a chynrychiolydd busnes |
| John Askew | Defnyddwyr cerbydau a moduron |
| Jenny Cockitt | Tirfeddianwr, amgylchedd naturiol |
| Gordon Davies | Cerdded, addysg a mynediad pobl ifanc |
| Anthea Fairey | Cadeirydd Cyfeillion Dolydd y Castell |
| David Farnsworth | Cerdded a mynediad lleol (*ymddiswyddodd Ebrill 2022*) |
| Sylvia Fowles | Marchogaeth i'r anabl, cadwraeth a hanes |
| Sheila Hampshire | Ffermio, bywyd gwyllt a mynediad cefn gwlad |
| Tracy Hook | Cerdded a marchogaeth |
| Shan Lewis | Cerdded a ffyrdd iach o fyw |
| Phil Mundell | Defnyddiwr a gwirfoddolwr cerdded |
| David Smith | Defnyddiwr cerdded a dringo, arweinydd gwirfoddol grŵp cerdded iach |
| Mark Storey | Seiclo, dringo a cherdded |
| Martin Sweeney | Gweithgareddau awyr agored |
| Cynghorydd Ann Webb | Cynrychiolydd Cyngor Sir Fynwy |

# Atodiad 2: Rhaglen Waith y Dyfodol

| *Eitem* | *Cefndir* | *Trefniadau Adrodd* |
|---|---|---|
| ***Eitemau Safonol*** | | |
| *Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad (CAIP)* | *Cynnydd ar weithredu'r CAIP a gymeradwywyd* | *Adroddiad rheolaidd* |
| *Mesurau Perfformiad* | *Meusrau perfformiad Cynllun Cyflenwi MonLife ar faterion CAMS (pob mater a mater blaenoriaeth uchel) Ar gael yn chwarterol* | *Adroddiad rheolaidd* |
| *Cyllid* | *Cynnydd ar a chyfleoedd ar gyfer rhagleni prosiectau mynediad cefn gwlad a gyllidir yn allanol a chyllid cyfalaf Cyngor Sir Fynwy* | *Adroddiad rheolaidd* |
| *Ymgynghoriadau* | *Ymgynghoriadau i'r Fforwm ar faterion perthnasol fel sydd angen* | *Adroddiad i'r Fforwm* |
| *Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru* | *Diweddariad ar goedwigaeth a materion cysylltiedig â mynediad* | *Adroddiad rheolaidd* |
| ***Gweithgaredd:*** | | |
| *Is-grŵp Gwella (Cynigir)* | *I'w sefydlu i gefnogi gweithio gyda chymunedau lleol i ddynodi gwelliannau yn y dyfodol* | *Adroddiad rheolaidd* |
| *Is-grŵp Coed Gwent (Cynigir)* | *Ceisio ailsefydlu trefniadau cydlynu yng nghyswllt Coed Gwent (gyda rheolwyr coedwigaeth a Chyngor Dinas Casnewydd)* | *Adroddiad fel sydd angen* |
| *Grŵp Mynediad Gwent* | *Cymryd rhan yn y grŵp mynediad rhanbarthol* | *Adroddiad fel sydd angen* |
| ***Eitemau Rhaglen Waith*** | | |
| *Hawliadau Gorchymyn Addasu Map Diffiniol* | *Adolygu nifer hawliadau a'u blaenoriaethu* | *Adroddiad i gyfarfod yn y dyfodol* |
| *Diwygio Mynediad Llywodraeth Cymru* | *Derbyn unrhyw ddiweddariad ar gynnydd ar y diwygiadau i fynediad* | *Adroddiad fel sydd angen* |
| *Ffyrdd Sirol Heb eu Dosbarthu Dyffryn Gwy* | *Ystyried datblygu strategaeth defnyddwyr cynhwysol ar gyfer yr holl ffyrdd sirol heb eu dosbarthu yn ardal Gwy isaf a rhwydwaith mynediad cefn gwlad cysylltiedig* | *Adroddiad i gyfarfod yn y dyfodol* |
| *Cynlluniau Adnoddau Coedwigaeth* | *Cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar Gynllun Adnoddau Coedwig Ddeheuol Dyffryn Gwy Cyfoeth Naturiol Cymru* | *Adroddiad i gyfarfod yn y dyfodol* |